# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

149 TACHWEDD 1988


## AR BWY MAE'R BAE?

DAETH Y cynllun dadleuol i godi argae ar draws ceg yr afonydd Taf ac Elai un cam yn nes yn ystod yr wythnosau diwethaf wrth i Gyngor De Morgannwg gefnogi'r mesur a gyflwynir i'r Senedd yn y dyfodol agos. Mae'r mesur preifat a luniwyd gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd bellach bron yn sicr o lwyddo.

Ar waetha gwrthwynebiad chwyrn gan grwpiau cadwraeth, grwpiau cymunedol a chlybiau hwylio, ac amheuon rhai o aelodau'r Blaid Lafur, penderfynodd y Cyngor - fwyafrif anferth - o blaid cefnogi'r cynllun.

Ar ol dwy awr a hanner o drafod fel hyn pleidleisiodd yr aelodau:

Eisoes mae'r Gorfforaeth wedi dangos ei barodrwydd i ddefnyddio'r pwerau pryniant gorfodol sydd ganddo, er mawr siom i nifer o fusnesau a gaiff eu heffeithio gan y cynllun.

Mae'r dechneg o ddefnyddio mesur seneddol preifat wedi'i feirniadu gan lawer fel dull o osgoi rheolaeth cynllunio lleol. O dan y drefn Seneddol caiff y mesur ei ystyried gan bwyllgor o bedwar o aelodau seneddol nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad a'r ardal - ni fydd yr un ohonynt hyd yn oed yn cynrychioli etholaeth yng Nghymru.

Mae'r argae, wrth gwrs, yn cael ei ystyried gan y Gorfforaeth Ddatblygu

| | O BLAID | YN ERBYN | YMATAL | ABSENNOL |
|---|---|---|---|---|
| LLAFUR | 30 | 3 | 0 | 1 |
| CEIDWADWYR | 12 | 0 | 0 | 6 |
| SLD | 1 | 0 | 4 | 0 |
| SDP | 1 | 0 | 0 | 2 |
| PLAID CYMRU | 0 | 1 | 0 | 0 |

Yr hyn sy'n syndod o ystyried rhai o'r dadleuon yn erbyn yr argae yw'r mesur o gefnogaeth a gafodd y cynllun oddiwrth aelodau'r Blaid Lafur. Dim ond Mark Drakeford (Pontcanna), Jane Hutt (De Riverside) a Duncan Longden (Tyllgoed) ynghyd ag unig gynghorydd Plaid Cymru, Chris Franks (Gogledd Dinas Powys) a bleidleisiodd yn erbyn.

Er cymaint yr amheuon sy'n codi ynghylch effaith y cynllun i adfywio'r dociau, a'r argae ar draws y Taf a'r Elai yn arbennig, y gwir amdani yw bod y sefydliad Llafur yn Ne Morgannwg yn frwdc o blaid y cynllun. Yr eironi yw y gallai'r cynllun arwain at broses o "iypieiddio" a allai yn ei dro olygu bod Llafur yn colli sedd De Caerdydd a Phenarth. Er mawr syndod i rai o'i gyfeillion seneddol mae'r aelod seneddol lleol, Alun Michael, yn gefnogol i'r cynllun.


Nawr bod Cyngor De Morgannwg wedi cytuno i gyflwyno'r mesur ar y cyd i Dy'r Cyffredin gyda Chorfforaeth De Caerdydd mae holl ddyfodol y cynllun y dociau yn symud i tu hwnt i reolaeth cynrychiolwyr etholedig lleol.

yn rhan gwbl hanfodol o'r cynllun i adfywio'r dociau - hebddo meddent ni fyddai'r cynllun yn llwyddo i greu swyddi. Ond mae'n siwr y bydd y llyn - a fydd yn mesur 10 milltir o'i amgylch - yn cael effaith andwyool ar yr amgylchedd.

O gofio'r dinistr a achoswyd i gannoedd o gartrefi gan lifogydd rhai blynyddoedd yn ol mae'n hawdd deall pryderon y trigolion hynny sy'n byw mewn ardaloedd sy'n ffinio ar y llyn. Eu dadl nhw yw y bydd yr argae yn rhwym o godi lefel y dwr a geir o dan y ddaear, ac y gallai hynny yn ei dro arwain at gynyddu'r perygl o lifogydd yn y dyfodol.

Carfan arall sy'n gwrthwynebu'r cynllun yn chwyrn yw'r adarwyr. Bydd y cynllun yn golygu dinistrio cynefin miloedd o adar, ac am y rheswm hynny mae'r Gymdeithas Frenhinol er Amddiffyn Adar (R.S.P.B.) wedi cyflwyno cynllun ar gyfer argae llai yn uwch i fyny'r afon.

Ond ar waetha'r holl wrthwynebiadau mae'n ymddangos bellach bod y cynllun yn sicr o gael ei weithredu. Amser yn unig a ddengys be fydd y canlyniad.



## CARTRE' NEWYDD I'R CYNGOR?

Yn y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd fe dynnwyd sylw at fwriad Cyngor Celfyddydau Cymru i agor siop ac oriel gelf newydd yn Heol y Brodyr Llwydion. Mae les yr adeilad yn Heol Siarl yn dod i ben ym mis Chwefror ac mae'n orfodol ar y Cyngor i chwilio am gartref newydd i 'Oriel'.

Ond nid y siop yn unig sydd ar symud. Yn ol y wybodaeth a ddaeth i law'r Dinesydd mae mae'r Cyngor hefyd yn ystyried symud ei brif swyddfa o Stryd yr Amgueddfa i Le'r Parc. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd mewn trafodaethau ynghylch prynu 20 Park Place, neu Park House fel y'i gelwir.

Mae'r adeilad dan sylw nid yn un hardd ond yn un hanesyddol ym myd pensaerniaeth. Cynlluniwyd Park House yn 1874 gan y pensaer enwog William Burges - ef hefyd a gynlluniodd Castell Coch. Fe'i codwyd ar gyfer Mr. McConnochie - peiriannydd yr Arglwydd Bute ar gyfer Dociau Caerdydd - ac fe'i ystyrir yn un o weithiau gorau Burges.



Mae'r NADOLIG yn nesau - mae cost yr Ŵyl yn cynyddu inni i gyd. Beth am arbed cost anfon cardiau eleni ac ar yr un pryd gyfrannu i goffrau'r DINESYDD?
Am y swm rhesymol o £3 gellwch gyfarch eich cyfeillion yn rhifyn Rhagfyr o'r DINESYDD. Os yw'r syniad yn apelio atoch, cysylltwch â'r golygydd.

# LLYTHYRAU

Annwyl Shân Emlyn

Rwyn gweithio ar Draethawd MA ar Christopher Williams yr Arlunydd (Maesteg). Oes rhywun yn ei gofio - oes wybodaeth am beth o'i waith - oes peth o'i waith ym meddiant neb ohonoch. Unrhyw wybodaeth am ei berthynas â Lloyd George a'r blaid Ryddfrydol ac â'r Eisteddfod Genedlaethol. Buaswn hynod o ddiolchgar o unrhyw oleuni ar yr Arlunydd nodedig yma.

Llawer o ddiolch

Ruth Richards
'Bugsilys'
Cemaes
Ynys Môn
Gwynedd

Cemaes 710386

---

Annwyl Gyfeillion
Bwriada'r Lolfa gyhoeddi blodeugerdd anarferol o'r pethau rhyfeddaf a welwyd mewn print yn Gymraeg - llythyrau od, adolygiadau cas, jôcs anobeithiol, proffwydoliaethau anghywir, cerddi hollol ddiawen, geiriau gweniaithus, ac yn y blaen. Y Bonwr Huw Ceiriog fydd Golygydd y gyfrol hynod hon.

Os gwyddoch chi am unrhyw bethau a fyddai'n addas i'w cynnwys yn y fath lyfr, a fuasech mor wych â'u hanfon ataf i yn y Lolfa, yn ddelfrydol erbyn diwedd y flwyddyn.

Yn gywir iawn

Meinir Vittle
Gweinyddwraig
Y Lolfa
Talybont
Aberystwyth
Dyfed SY24 5HE
(097086) 304

---

MaeMudiad Ysgolion Meithrin wedi trefnu Cynhadledd yng Ngholeg y Llyfrgellwyr Aberystwyth, dydd Sadwrn, Rhagfyr 3ydd, ar 'Y Cwricwlwm Cenedlaethol'.

Nôd y Gynhedledd yw hysbysu rhieni ynglŷn â goblygiadau cyfreithiol ac addysgol y Ddeddf Addysg Newydd a'r Cwricwlwm Cenedlaethol a hynny'n benodol mewn perthynas a'r Gymraeg.

Bydd coffi ar gael am 10 o'r gloch a bydd y Gynhadledd yn cyhwyn am 10.30.

Os ydych am fynychu, ac mae croeso i bawb, yna, cysylltwch â:

Mudiad Ysgolion Meithrin
10 Park Grove
Caerdydd

(0222) 236205




Arlwyo Awril

Partïon, ac Achlysuron Arbennig.

Darperir at unrhyw rif.
Rhywbeth at ddant pawb.
Bwyd ffres.
Prisiau rhesymol.

Ffôn 481001 (Caerdydd) am fwydlen.


Neges i Ddysgwyr oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy

Neges i Ddysgwyr
oddi wrth Nancy Learmonth

Mae'r nifer o ddysgwyr yn cynyddu bob blwyddyn dros y wlad. Mae'n nhw'n cael eu hyfforddiant gan griw o athrawon arbennig o dda, athrawon brwdfrydig sy'n dysgu efo medr, amynedd ac efo hwyl hefyd.

Hoffwn i dynnu sylw, felly, at gystadlaethau i ddysgwyr yn y Brifwyl y flwyddyn nesaf. Mae'r Rhestr Testunau wedi cael ei chyhoeddi erbyn hyn am ddwy bunt yn unig. Fel allwch chi weld, mae'n gystadaethau ar gyfer dysgwyr o bob safon. Felly, peidiwch â theimlo'n rhy swil i geisio. Ffordd dda ydy hyn i roi cefnogaeth i ddysgwyr eraill, ac ar yr un pryd i roi calondid i'r athrawon....peth pwysig iawn.

Mae'r rhestr yn cynnwys amrywiaeth o orchwylion, o fewn cyrraedd y rhan fwyaf o ddysgwyr. Mae'n bosib i chi gystadlu fel unigolion neu mewn grwpiau, ar y llwyfan, neu efo gwaith ysgrifenedig. Mae 'na le am waith llaw, arlunio, chwarae offeryn a chanu, a hyd yn oed i berfformio efo meim, fel rhan o sgets er enghraifft. Dydw i ddim isio rhoi rhestr gyflawn, ond sialens arbennig o ddiddorol ydi'r Llyfr Lloffion (scrapbook) o ddiddordebau, neu hobi, yn cynnwys samplau, lluniau ac yn y blaen. Does dim angen i chi fod yn rhugl i wneud hyn.

Adran bwysig iawn hefyd, ydi 'Cyfansoddi a Pharatoi Deunydd ar gyfer Dysgwyr' - adran agored wrth gwrs, i bawb. Eto, mae 'na sialens fawr yn y pynciau, nifer ohonyn nhw wedi cael eu awgrymu gan ddysgwyr eu hunain, i roi canllaw iddyn nhw efo anhawsterau yn yr iaith, sef treigliadau, enwau lluosog, ac ati.

Yn olaf, ga i addasu geiriau O M Roberts (Cadeirydd Pwyllgor Gwaith 1989) yn ei Gyflwynair i'r Testunau.. ...'Felly, pawb ym myd y dysgwyr, hei ati, hogwch eich arfau, torchwch eich llewys ac mi gawn ni Eisteddfod werth chweil, chwedl pobl Dyffryn Conwy.'

---

Dylid anfon deunydd y rhifyn nesaf at y Golygydd,
Coed y Pry,
3 Llandennis Ave.,
Cyncoed.
erbyn Tachwedd 24ain.

Annwyl Olygydd
Fe'm penodwyd yn ddiweddar yn Gynorthwywraig Ymchwil yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor a'r bwriad yw i mi ymchwilio i fywyd a gwaith y Dr Nansi Richards Jones (1888-1979). Gwn nad gwaith hawdd syss o'm blaen, felly apêl sydd gen i i chwi'r darllenwyr. Tybed fyddech chi cystal â nodi unrhyw atgofion sydd gennych o Nansi Richards ar bpaur fel y daw pethau i'ch côf (unrhyw beth - yn fach neu'n fawr). Bydd unrhyw fath o wybodaeth yn dderbyniol - boed hynny'n wybodaeth fywgraffiadol, cerddorol, neu ddiwylliannol - a hynny ar ffurf llythyrau personol, recordiau, tapiau, nodiadau, sgyrsiau, atgofion a y y b yn sôn efallai am hyfforddiant/repertoire clasurol a thraddodiadol Nansi, ei harddull a'i thechneg a y y b.

Pe baech yn fodlon llythyra, ffonio, neu gwrdd â mi rhyw dro, byddwn yn ddiolchgar dros ben. Gyda'ch caniatâd, byddwn wrth fy modd yn cael benthyca unrhyw ddeunydd fydd gennych, eu ffotocopio, neu hyd yn oed dod â nhw nôl i'r Brifysgol i'w cadw, rhag ofn iddynt gael eu colli neu eu taflu o'r neilltu rhyw ddydd (rhywbeth sydd, yn anffodus, wedi digwydd i lawer o'r deunydd erbyn heddiw).

Nia Gwyn Roberts
Cynorthwywraig Ymchwil
Adran Gerdd
Bangor
Gwynedd LL57 2DG (0248) 351151

---

Galw Ar Awdurdodau Lleol I Ysgwyddo eu Cyfrifoldeb

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi anfon llythyr at bob awdurdod Lleol yng Nghymru gan ofyn am ateb i un cwestiwn - a oes ganddynt gynlluniau ar droed i brynu tai a busnesau er mwyn eu rhentu i bobl leol, ac a ydynt yn credu y dylent fynnu'r hawl hwn gan y Llywodraeth i'w galluogi i wneud hyn?

Yn wyneb yr argyfwng a greir oherwydd y sefyllfa economaidd bresennol a'r mewnlifiad o Loegr, cred y Gymdeithas yr Iaith fod yn rhaid i Awdurdodau Lleol Cymru ysgwyddo eu cyfrifoldeb at anghenion eu cymunedau leol, a mabwysiadu rhaglen gynhwysfawr o brynu tai a busnesi lleol i'w rhentu i bobl leol.

Am fwy o fanylion cysyllter a
Dyfed Wyn Edwards (0341 41 616)
Angharad Tomos (0286 830 276)


YMUNWCH AG

UCAC

DROS GYFUNDREFN
ADDYSG ANNIBYNNOL
I GYMRU

Cysylltwch â
Phrif Swyddfa U.C.A.C.
Pen Roc, Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth, Dyfed, SY23 2AZ
Ffôn: 0970 615577

# SÊR Y DINESYDD

*Eiry Palfrey*

Aries
Os ydych chi am gymryd mantais o'r arian sy'n debygol o ddod i'ch rhan y Tachwedd hwn bydd rhaid i chi gymryd cyngor proffesiynol yn ei gylch, neu fe allech chi ei golli i gyd! Mae'r farchnad ariannol yn simsan iawn ar hyn o bryd a dim ond yr arbenigwyr wyr orau beth i'w wneud. Rhaid magu amynedd, yn enwedig os ydych am lwyddo yn y gwaith.

Taurus
Bydd angen i chi ddefnyddio ei holl amynedd i osgoi cweryla yn y cartre neu'r gwaith y mis hwn. Trowch eich cefn ar bob anghydfod a byddwch yn sicr o elwa yn y pen draw. Fe allai hwn fod yn fis rhamantus iawn os ydych yn barod i fentro. Ac os ydych yn ystyried buddsoddi'ch arian fe ddylech fod yn lwcus ar hyn o bryd.

Gemini
Mae gennych ffrind sy'n awyddus i gynnig gair o gyngor i chi. Cymrwch e, er gwaetha'ch balchder. Mi fyddwch yn falch iawn maes o law. Rydych wedi bod mewn cyfyng gyngor ers tro, rhaid i chi bellach wneud penderfyniadau yn ddiymdroi. Peidiwch â bod ofn mentro, mae cyngor doeth gerllaw, a chofiwch mai antur yw bywyd!

Cancer
Rydych wedi bod yn rhy hael ers tro bellach, ac erbyn hyn mae na beryg bod rhai diegwyddor am gymryd mantais o'ch natur garedig. Rhowch eich hunan yn gyntaf am unwaith. Chewch chi ddim parch o fod yn glwtyn llawr i bawb. Mae sawl cyfle yn ddod i chi yn ystod yr wythnose nesa 'ma - cymrwch nhw! Wnewch chi ddim difaru.

Leo
Bydd na newidiadau mawr yn y cartref y mis hwn, efallai byddwch yn symud. Byddwch amyneddgar gyda'r holl rwystredigaethau ddaw i'ch rhan, ddaw pethau'n well maes o law. Byddwch amyneddgar gyda'ch teulu mae pethau ar eu meddwl ar hyn o bryd. Mi fyddwch yn teimlo'n llawer hapusach a hwylusach erbyn diwedd y mis.

Virgo
Fe all fod newidiadau mawr yn y gwaith y mis hwn, ond cofiwch wrth i un drws gau bydd un arall yn sicr o agor. Rydych chi'n teimlo'n optimistaidd a hyderus iawn ar hyn o bryd, ac oherwydd hynny bydd gan eraill ffydd ynnoch. Fe allech fod braidd yn rhy siaradus ar adegau, cofiwch wrando, fe allech ddysgu rhywbeth pwysig.

Libra
Mae na elfen dramor o'ch cwmpas y mis hwn, cyfle i deithio efallai, neu mae'n bosib y byddwch yn cyfarfod â rhywun o wlad dramor. Efallai bydd eich teulu yn cymryd mantias o'ch calon feddal, peidiwch â gadael i neb gerdded drosoch chi, chewch chi ddim parch fel yna. Cymrwch ofal o'r ceiniogau'r mis hwn a byddwch yn barod am filiau annisgwyl.

Scorpio
Mae na lawer o newidiadau o'ch blaen yn y flwyddyn sydd i ddod, a nawr tra bo'r haul yn eich arwydd fe all rhai digwyddiadau annisgwyl eich synnu. Rydych wedi cael cyfnodau isel yn ddiweddar ond o hyn ymlaen fe fydd pethau'n gwella'n aruthrol. Rhaid i'r byd gymryd sylw o'ch galw a'ch talentau di-ri o hyn ymlaen.

Sagittarius
Mi fyddwch yn llawn hwyliau da'r mis hwn, fydd o help mawr i chi pan ddaw gofyn i chi wneud penderfyniad pwysig maes o law. Penderfyniad a allsi'ch effeithio chi a'ch teulu am flynyddoedd lawer. Mae'r planedau o'ch ochr, mi fyddwch felly yn sicr o wneud y penderfyniad gorau. Mi fyddwch yn llawn ynni a theimladau optimistaidd.

Capricorn
Efallai mai 1988 oedd y flwyddyn anoddaf yn eich bywyd hyd yn hyn. Bu raid i chi ddod i dermau â llawer gwirionedd poenus yn eich bywyd. Rhaid i chi nawr ystyried y pobol o'ch cwmpas sy' hefyd wedi dioddef o dan yr un amgylchiadau. Mae angen i chi gydnabod eu poen hwythau a gwneud y cyfan sy'n eich gallu i'w leddfu.

Aquarius
Efallai eich bod wedi gwneud gelynion yn y misoedd a aeth heibio, rhai a allai niweidio eich bywyd a'ch gyrfa. Rhaid rhoi eli ar y briw cyn iddi fynd yn rhy hwyr. Pa mor anodd bynnag yw hi, a phwy bynnag oedd ei feio, dim ond chi all wella'r sefyllfa. Felly anghofiwch eich balchder a gwnewch yr hyn sydd raid ei wneud, mi gewch barch mawr am hynny.

Pisces
Mi fyddwch yn awyddus i ehangu'ch gorwelion y mis hwn, teithio dramor efallai, neu fynychu dosbarthiadau nos. Beth bynnag a wnewch ni fydd yn sicr o newid eich bywyd er gwell. Mae elfen gref o dwyll o 'ch cwmpas ar hyn o bryd, peidiwch ag ymddiried yn unrhyw un, yn enwedig gyda'ch arian. Mi ddylech fod yn llwyddiannus yn y gwaith.

# Y CALENDR

Tachwedd

23 Cymdeithas Minny Street am 7.15. "Bywyd Milfeddyg" - Gerwyn Llewellyn.

24 Cymdeithas Cymraeg Bro-Radur yn y Radyr Court am 8 o'r gloch. Siaradwr: Ken Williams.

25 Cylch Cinio'r Barri am 7.00. Noson y Gwragedd. Y wraig wâdd: Rhiannon Evans, Tregarth.

Rhagfyr

5 Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd - darlith gan Ms Iona Wyn Williams - "Curiad Calon Cymru" yng Nghlwb Ifor Bach am 8 O'r gloch.

7 Cymdeithas Minny Street - Parti Nadolig.:

11 Eglwys Dewi Sant - 'Cân y Nadolig' er budd Canolfan yr Urdd, 8 o'r gloch.

15 Cymdeithas Gymraeg Bro Radur yn y Radyr Court am 8 o'r gloch - Nos 'Dolig.:



Delwyn Siôn - HYDREF

Ddyw flynedd yn ôl cyhoeddwyd caset diwethaf Delwyn Siôn o'r Eglwysnewydd, Caerdydd - Mwgyn, Mwffler a Mynuffari, a oedd yn cynnwys clasuron fel "Mae Lleucu wedi priodi" a "Dim Ond Tri".

Cefndir a oedd yn cynnwys llawer o gitarau acwstig, drymiau, bâs, piano, ffidil a gitar ddur oedd i'w glywed ar y caset hwnnw a recordiwyd yn y Ffatri Gerdd, Caerdydd.

Y tro yma fodd bynnag, mae Delwyn wedi defnyddio sŵn hollol wahanol, mae ganddo ganeuon gwahanol ond yr un mor ddiddorol, a recordiwyd y cyfan yn Stiwdio Sain, Llandwrog gyda Hefin Ellis a Delwyn yn cynhyrchu.

Y tro yma hefyd, mae'r band yn hollol wahanol - yn cynnwys Charli Britton (drymiau), Gareth Williams (bâs), Graham Smart (allweddellau) a dau ddewin ar y gitarau - Tich Gwilym a Brian Breeze.

Genod Tŷ'r Ysgol o Ddeiniolen sy'n canu'n gefndir i Delwyn ar ddeg o ganeuon newydd o'i waith ef ei hun (ar wahân i eiriau Bore da, Gymry! sydd gan Myrddin ap Dafydd).

Mae nifer fawr o'r caneuon yn argraffiadau craff a theimladwy o Gymoedd De Cymru gan un a fagwyd yn Aberdâr. Mae rhieni Delwyn yn byw yno o hyd.

"Aberfan" yw un o'r caneuon prin sy'n delio efo trasiedi mawr 1966. 'Roedd Delwyn yn Ysgol Rhydfelen ar y pryd ac mae'n cofio'r digwyddiad yn dda.

Mae'n cofio profiad annymunol arall hefyd a gafodd tra'n ifanc. Collodd Delwyn ffrind agos. Un ar hugain oed oedd Tony Venn pan fu farw, a chyflwynir y gân hon er cof amdano ac am gyfeillgarwch Delwyn ac yntau.

Ymysg y caneuon eraill ar y caset newydd y mae "Tridiau", cân am Gary Gilmore y llofrudd a ddienyddiwyd yn America, a thridiau olaf ei fywyd yn y carchar.

"Mor bell i ffwrdd" yw can Delwyn i'w ferch fach Lowri Mererid a anwyd eleni - pan mae o'n y Gogledd yn gweithio mae hi, ac Ann ei wraig ".....Mor bell i ffwrdd".

Bore de Gymry! yw teyrnged Delwyn i Ffred Fransis.

Pynciau eraill sy'n cael sylw gan Delwyn yw "Dawnsio", "Samaria!" a "Hollywood".

Sain (SPD 664 - record i'r cyfryngau) I gysylltu â Delwyn (0222) 627520


Yn bendant dyw pethau ddim fel y buon nhw. Pwy fuasai'n meddwl y truga yn Llandaf, gwmni Cymraeg a'i bysedd ar guriad y byd buddsoddi a digwyddiadau economegol.

Mae'r newidiadau diweddaraf yn nulliau telathrebiaeth a thechnoleg cyfrifiaduron wedi dod â bendithion enfawr mewn cyfathrebiadau. Mae gwybodaeth yn nawr yn cymryd ond rhanned o'r amser a gymerwyd yn y gorffennol ac mae'r marchnadoedd 24 awr wedi hen gyrraedd.

Mae'r angen am gyngor annibynnol wedi bod erioed i feirniadu a rheoli pob math o fuddsoddiad heb duedd na rhagfarn. Hyd at yn ddiweddar bu rhaid trafaelu i Friste, neu i Lundain i gael cyngor o'r math yma ond ym mis Mawrth 1986 fe lansiwyd yn dawel fach yng Nghaerdydd gwmni a oedd yn cynnig gwasanaethau buddsoddi annibynnol ar gyfer cwsmeriaid ac asedau a gwerth mawr. R'oedd yn gwmni newydd sbon, ond fel cwmni roedd ganddo sylfaen o gwsmeriaid ers 6 blynedd, y rhain wedi eu trosglwyddo o gwmniau adnabyddus eraill. Enw'r cwmni newydd oedd Celtic Asset Management Cyf.

Cyfarwyddwyr cyntaf y cwmni oedd Dafydd Hampson-Jones, Peter Cardinali a Richard Hearn. Mae Dafydd o Faesteg ac yn Gymro Cymraeg brwd. Cyn 1986 r'oedd ganddo rhyw 17 mlynedd o brofiad yn y maes oherwydd ei wasanaeth mewn banc masnachol, un o'r prif Banciau, ac hefyd fel Cyfarwyddwr buddsoddi i gwmni preifat. Mae Peter Cardinali yn enedigol o Gaerdydd a daeth i'r cwmni fel brocer stoc profiadol ar ol 13 blynedd gyda broceriaid stoc Lyddon yng Nghaerdydd. Daw Richard Hearn o Ynyswen yn y Rhondda, ac fel cyfrifydd fe yw Cyfarwyddwr Cyllid ac Ysgrifennydd y cwmni. Mae ganddo brofiad mewn sawl maes, yn cynnwys Swyddfa Datblygu Cymru a chwmniau preifat ac mae nawr hefyd yn rhedeg ei bractis ei hun yn y Rhondda.

Yn ddiweddar mae cyfarwyddwr newydd wedi ymuno â'r cwmni sef Alan Coombs. Mae ef hefyd yn enedigol o Gaerdydd ac mae ganddo dros 20 mlynedd o brofiad yn arbenigo yn y maes pensiynau ac yswiriant bywyd. Ei gyfrifoldeb ef yw sefydlu adran i'r cwmni sydd yn cynnig gwasanaethau arbenigol yn ei ddisgyblaeth ef, ond yn cyd-rhedeg a'r gwasanaethau eraill sydd ar gael gan y cwmni eisioes.




*Howard Bailey yn gweithio wrth sgrin y Farchnad Stoc.*

O'r dechrau mae Celtic Asset Management wedi bod yn Gymreigaidd yn ei agwedd a gwelid hyn mewn nifer o'i weithgareddau. Mae pwyslais cyson ar gynorthwyo busnesau a diddordebau lleol er mwyn cyfrannu a hybu yr economi leol. Maent hefyd yn aelodau o Sefydliad Materion Cymraeg.

Yn ychwanegol maent wedi ymdrechu i gynorthwyo ysgolion lleol. Mae Howard Bailey sydd nawr yn Rheolwr Buddsoddi dan hyfforddiant yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Llanhari. Hyd yn ddiweddar r'oedd Lisa Jones, eto gynt o Lanhari yn Ysgrifenyddes dan hyfforddiant. Mae hi newydd adael i ddechrau swydd yn agosach at ei chartref ac felly mae na le gwag i'w lenwi ar hyn o bryd.

Fel y soniwyd yn gynt mae'r byd telathrebiaeth wedi newid cryn dipyn yn ddiweddar ac mae hyn yn golygu bod gwybodeth ar gael lawer ynghynt nag erioed o'r blaen. Mae'n bosib felly i sgrîn yng Nghaerdydd ddangos yr union wybodaeth ac un debyg yn Llundain, Tokyo neu Efrog Newydd, ar union yr un eiliad. Fel rhan o'r cefnogaeth mewnol i'w gwasanaethau mae gan y cwmni setiau sydd a chysylltiad yn syth â'r Farchnad Stoc yn Llundain, meddalwedd ei hunan sydd yn cadw golwg bob dydd ar nifer o fuddsoddiadau craidd, meddalwedd Micropal sydd yn galluogi ymchwil i bob un o'r cronfeydd unedau, y cronfeydd yswiriant a pensiynau ym Mhrydain ynghyd hefyd a chyfrandaliadau yr FTSE100 ac Ymddiriedolaethau Buddsoddi.



Hefyd mae gan y cwmni feddalwedd sydd yn cadw manylion am bob un o'r buddsoddiadau a wneir gan gwsmer ac mae'n bosib rhoi'r wybodaeth ar y sgrin, wrth gyffwrdd botwm (neu ddau).

Mae cwsmeriaid y cwmni yn amrywio o gwsmeriaid preifat, cwmnïau, cronfeydd pensiynau hunan gweinyddol, ac ymddiriedolwyr cronfeydd. Mae'r cwmni yn medru rhoi nid yn unig arweiniad a chymorth ar y dechrau, ond hefyd y gweithredu a'r rheoli dilynol sydd yn anghenrheidiol am yr elw gorau. Er mwyn darparu ar gyfer nifer o ofynion, mae gan y cwmni sawl gwasanaeth. Mae'r rhain yn amriwio o wasanaeth sydd wedi ei sefydlu ar ffi yn unig (ond yn cael ei or-bwyso gan bob comiswn a dalwyd) hyd at wasanaeth ymgynghorol sydd yn rhad ac am ddim.

Mae'r cwmni, heb os nac oni bai yn un o Dde Cymru, yn seiliedig yng Nghaerdydd ond mae'n medru cystadlu ar y safon uchaf gyda'r cwmniau mwyaf yn Llundain. Mae gwasgaredd daearyddol y cwsmeriaid yn dyst i hyn. Maent o Lundain a De Ddwyrain Lloegr, Briste, y Gogledd Ddwyrain ac hefyd o wledydd tramor sef y Sudan, Hong Kong, Nigeria, De Affrig a Sbaen.

Yn sgîl gwarth fel yr un diweddaraf yn ymwneud a Barlow Clowes mae'n dda gwybod nad oedd gan CAM yr un geiniog wedi ei fuddsoddi gyda Barlow Clowes ar ol dod i'r canlyniad nad oedd digon o ddiogelwch i arian y buddsoddwyr. Mae Celtic Asset Management Cyf. yn dod o dan FIMBRA ar hyn a bryd ac yn aelod llawn wrth weinyddu yn llwyr dan ysbryd a chyfraith y Deddf Gwasanaethau Ariannol 1986. Cyn hyn 'roedd y cwmni yn Ddelwyr Trwyddedig mewn Gwarannau ac yn cadw i safonau cyfrifol llym iawn.

Yn ychwanegol at Celtic Asset Management mae dau gwmni arall yn gweithredu o'r un swyddfeydd sef Celtic Asset Nominees Cyf. - is-gwmni i CAM ac fel awgrymwyd gan yr enw mae'r cwmni yn cynnig gwasanaethau enwebai i unigolion, ymddiriedolaethau a chwmniau ym Mhrydain a thramor - ac hefyd Celtic Asset Services Cyf. Mae'r cwmni olaf yn un annibynnol yn cynnig gwasanaethau ysgrifenyddol, ymysg eraill, wedi ei seilio ar brosesyddion geiriau, i unigolion, cwmniau a chlybiau - yn Saesneg hefyd! Felly mae'n bosib i glwb neu efallai busnes bach heb y



*O'r chwith i'r dde: Richard Hearn, Dafydd Hampson-Jones, Peter Cardinali ac Alan Coombs.*

cyfleusterau, staff neu beirianwaith, gael llythyrau perffaith, ar bapur y cwsmer wedi eu cyfeirio'n gymwys. Daliwyd y gwybodaeth ar ddisg hyblyg a'i rhoi i'r cwsmer yn barod i'w defnyddio unrhyw amser y bo angen.

Yn ddiddorol mae Celtic Asset Services Cyf ar hyn o bryd yn ymchwilio mewn i feddalwedd newydd a'r gallu i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, ac os bydd yr ymchwil yn llwyddiant yna bydd y meddalwedd ar gael i gwsmeriaid.

O ddiddordeb i glybiau a chyrff eraill sydd ag angen am fwy o enillion ydy'r ffaith fod gan Celtic Asset Management Cyf bolisi o rannu ei henillion ble mae cynilion gradd yn bosib. Er enghraifft mae nifer fawr o unigolion a chwmniau yn trefnu polisiau er mwyn pensiwn neu dalu morgais ond yn eu trefnu yn uniongyrchol a'r cwmni yswiriant heb unrhyw fantais. Ond os oes trefniant gan CAM gyda dywedwch darllenwyr Y Dinesydd neu gorff arall mae'n bosib y gall rhan o'r enillion gael ei thalu i'r Dinesydd heb unrhyw golled i'r unigolyn. Yn wir efallai fe fydd yr unigolyn yn elwa oherwydd caiff ei anghenion eu hadolygu yn drylwyr, gan y cwmni a'r cyngor priodol ei roi.

Mae gwasanaethau ariannol heddiw yn llawn problemau, gyda phob siop ddillad ar y Stryd Fawr, Banc a Chymdeithas Adeiladu yn hawlio bod ganddynt y gallu, y peirianwaith a'r amser i gynghori'n drwyadl. Mae'n amlwg bod na le am gyngor annibynnol, mewn cyd-weithrediad â chyfrifydd neu gyfreithiwr y person, cyn penderfynu.

Hyd yn hyn mae Celtic Asset Management Cyf wedi cadw proffil isel ac heblaw hysbysebu yn y Dinesydd wedi gwneud fawr ddim o hysbysebu pellach. Mae ei fusnes newydd yn dod gan amlaf yn sgîl cymeradwyaeth o gwsmer, cyfrifydd neu gyfreithiwr sydd yn gyfarwydd â'i agwedd tuag at fuddsoddi, sef delio â chwsmeriaid ac asedau o werth, ac osgoi'r farchnad boblogaidd.

Dyna yn fyr ydy hanes un o gwmniau'r Ddinas sydd yn feistr mewn maes arbenigol iawn ond eto maes sydd yn bwysig iawn i gymaint ohonom. Os oes unrhyw agwedd o weithgareddau'r Cwmni sydd o ddiddordeb i chi bydd croeso mawr yn Nhŷ Penhill.

celtic asset management cyf

TŶ PENHILL,
11-13 HEOL PENHILL, CAERDYDD CF1 9UP
Ffôn: (0222) 394021/4 Facs: (0222) 383808

Aelod o Fimbra

# BWTH RUTH



Wel helo pa hwyl sydd? Newydd fod yn trefnu'r trip blynyddol i Smithfield - y gwesty yn wahanol eleni ond y cwmni fel arfer - Dei Tomos (Awyr Iach ac Amaeth) a Gaina Morgan (Y Ferch o'r Sgêr) - sydd yng ngofal rhaglenni amaethyddol Saesneg BBC Wales. Magwyd Gaenor ar fferm enwog Sgêr ger Ogwr a'i rhieni sy'n ffarmio yno heddiw - ag mae ganddi straeon diddorol i'w ryfeddu am y lle. Wrth drefnu fel hyn mae'n atgoffa dyn fod y Nadolig heb fod ymhell - ond dydwi ddim am gamu'n fras i'r tymor nesa heb lwyr sawru hon. I nghefnder annwyl Dafydd Parry sy'n rhyw fudur ffarmio a rhedeg canolfan merlota yng ngogledd Sir Aberteifi mae misoedd Hydref a Tachwedd yn amser cael hoe fach wedi misoedd prysur yr haf. Dyma'r mis pan mae'n rhaid sicrhau fod y meheryn wrth eu gwaith ag mi wn y bydd o'n rhoi'r defaid trwy'r bath traed yn ystod y dyddiau nesa 'ma gan fod ambell un yn cloffi ag mae o'n amau 'foot rot' ar ambell un. Dyma gyfnod y ffeiriau ceffylau hefyd - sef pwrpas gwreiddiol Ffair y Borth (Porthaethwy), Ffair Bala a.y.b. Ond yn ardal Llanybydder, Tragaron a Rhaeadr mae Dafydd yn chwilio am ferlod fydd erbyn yr haf nesa yn addas i'w marchogaeth o gwmpas Bont Goch (Elerch).
Mi rydw innau yn mynd i hwyl y tymor ag yn hel i ysguboriau hefyd ag wedi i mi dderbyn pwysi o afalau o bob cwr o Gymru dyma droi ati i wneud Jeli llawryfen sy'n flasus iawn hefo cigoedd oer o bob math neu fara a chaws - mi rannai'r risêt hefo chi.

Cynhwysion

2.3 kg/5 pwys afalau - wedi plicio a'u torri'n ddarnau
1.1 litr/2 bt o ddŵr
5.6 deilen llawryfen
1.1 litr/2 bt o finegr wedi'i ddistyllu
Siwgwr

**Dull**

1. Rhowch yr afalau mewn sosban reit fawr hefo'r dŵr a'r dail llawryf. Dowch â'r cyfan i'r berw a'i fud ferwi am tua 45 munud. Rhowch lwy bren drwyddo o bryd i'w gilydd rhag iddo gydio. Ychwanegwch y finag a'i ferwi eilwaith am rhyw 5 munud.
2. Rhowch y gymysgedd rwan mewn bag jeli neu drwy fwslin a gadewch iddo hidlo i bowlen neu jwg go fawr am tua 12 awr - neu dros nos.
3. Taflwch y mwydion o'r cwdyn jeli, mesurwch yr hylif a'i roi mewn sosban hefo 450g/1 pwys o siwgwr i bob 600ml/peint.
4. Rhowch ar y tân, toddwch y siwgwr ag yna dowch â'r cyfan i'r berw, a'i ferwi yn gyflym am 10 munud.
5. Profwch am 'set', wedyn tynnwch oddi ar y gwres. Gadewch iddo oeri ychydig yna rhowch mewn potiau gwydyr - rhowch ddeilen llawryf unigol ymhob pot - yn help i'w nabod neu rhowch labeli.
   Mi allech wneud yn union yr un fath hefo perlysiau megis rosmari, mint, persli, saets a teim.

O.N. - plîs gai help - risêt ynteu riseb sy'n iawn a pham? Rhag i chi amau mod i'n eich gwenwyno chi hefo dail llawryf (laurel) dyna'r term Ffrengig a Chymraeg am bay-leaf mae'n debyg. Hwyl.

APEL GENEDLAETHOL MUDIAD YSGOLION MEITHRIN EBRILL 1988 - MAI 1989

Bydd 1989 yn flwyddyn bwysig yn hanes M Y M gan y byddwn yn dathlu ddeunawfed penblwydd sefydlu'r Mudiad.

Fel rhagbaratoad megis ar gyfer yr achlysur hwnnw penderfynwyd gwneud Apêl Genedlaethol i godi £50,000 tuag at brynu Pencadlys yng Nghaerdydd ac i ddatblygu ac ehangu'r Mudiad ledled Cymru.

Mae Pwyllgor yr Apêl wedi gosod ar nôd ar gyfer pob Sir ac yn Ne Morgannwg gofynnir i'r Fro gasglu £900 a'r Ddinas i gasglu £1,600.

Eisioes mae nifer o garedigion y Mudiad o fewn y Sir wedi cefnogi'r Apêl drwy noddi Gwilym Roberts, Rhiwbeina pan y rhedodd o gwmpas Llyn Tegid yn ras Mini Marathon yr Urdd fis Mehefin diwetha'. Byddwn yn falch iawn o dderbyn unrhyw gyfraniad fawr neu fân gan ddarllenwyr 'Y Dinesydd' na chafodd gyfle i noddi Gwilym er mwyn i Sir De Morgannwg gyrraedd ei nôd. Anfonwch eich cyfraniadau at Einon Williams, Trysorydd Sirol M Y M, 7 Mayfair Drive, Gorse Bank, Bryndrain/Thornhill, Caerdydd a dylid gwneud eich sieciau yn daladwy i 'Mudiad Ysgolion Meithrin De Morgannwg.'

CANTORION CANTON

Cafwyd noson o ad-uniad ar Hydref 11eg yn Nhŷ-Nant, Treforgan, noson hapus dros ben a'r aelodau'n cael cyfle i drafod dyfodol y côr. Fe'i ddurfiwyd yn benodol i gystadlu yng nghystadleuaeth Corau Cymuned yn Eisteddfod Casnewydd eleni dan arweiniad Betsan Gerallt. Cafwyd llawer o hwyl, nid yn unig ar y canu ond hefyd ar y gwmniaeth a mynegodd sawl aelod y gobaith y byddai'r côr yn dal ati i gyfarfod. Penderfynwyd yn unfrydol i wadd Betsan i ailgydio yn y baton ac hyfforddi'r côr ar gyfer noson sy' wedi dod bellach yn rhan o draddodiadau mis Rhagfyr i Gymry Cymraeg Caerdydd sef "Sêr y Salem". Bydd yr ymarfer cyntaf yn Festri Salem, Market Road, (gyferbyn â Gorsaf Heddlu Canton) ar nos Fawrth Tachwedd 1af am 7 o'r gloch a phob nos Fawrth wedi hynny. Awr o bractis bydd 'na ac estynir croeso mawr i gantorion o bob llais, yn arbennig tenoriaid a baswyr.

## Menna'n manylu

Dyna Hydref a'i liwiau hyfryd wedi diflannu "megis seren wib" unwaith eto, ond mi ddigwyddodd 'na lawer yn ystod y mis er mor ddibwys ydi'w cofnodi. Daeth Mei a Men, efeilliaid Olwen fy chwaer i lawr i'r Brifysgol, a dyne Ceri a finne wedi glanio'n hunain yn gwnued cinio iddyn nhw bob dydd Sul! Ew, atgofion melys am ddyddie coleg pan mae rhywun mor llawn bywyd a syniade ifanc - a dyne fi eto'n swnio fel hen gant.
Mi fuom yn perfformio'n drama 'Eli'r Galon' am y tro ola ar ôl ein taith, a hynny'r tro hwn yng Nghlwb y Bont. Cafwyd croeso a derbyniad da iawn, ac roedd y dathlu wedyn yr un mor dderbyniol!
Mi fûm ym Mryste efo'r côr a Dawnswyr Nantgarw a phlesio cynulleidfa deilwng iawn efo'n datganiadau.
Mi fûm adre eto hefyd a chael cyfle i fynd i Wrecsam i weld fy nith fach fis oed - del ac annwyl peidiwch â sôn - be 'di'r gair Cymraeg am 'broody' 'dwch? Gorllyd neu glwc yn ôl y Geiriadur Mawr! Scarcely biliff!
Penwythnos arall mi ddaeth mam a'i ffrind i lawr ac mi fuom yn treulio orie'n chwilota fel tramps am fargeinion mewn 'jymbl sêls'. Yna, i'r pegwn arall, treulio awr neu ddwy mewn ffair hen bethau a methu fforddio dim!
Mae'r awr wedi newid eto, a finne'n dal heb symud bysedd dau o glocie'r tŷ 'cw - dydi amser yn hedfan!
Ac mae hi 'di mynd yn dywydd perig i ddreifio Moi'r moped o gwmpas y ddinas 'ma hefyd - bron i fan fawr fy nharo ddoe ddwytha, ond diolch byth, dwi yma i ddeud yr hanes yn dydw!
Ddiwedd y mis roedd Cyfarfod Cystadleuol y Capel yn cael ei gynnal adre, a phawb, o'r plant i'r to hŷn yn cael cyfle i gystadlu ar lefel leol mewn cystadleuthe fel coginio, gwau, arlunio, ffotograffiaeth, llên, awen, canu ac adrodd. Dyma gystadlu iach iawn o'i gymharu â'r lefel genedlaethol - pawb yn cael cyfle i fynd i'r pulpud i neud ei berfformiad boed o allan o diwn a'i peidio, neu'n llyncu ei bwyri dros ddwsin o weithie mewn un gân!

Mi fuodd 'na amryw o ddramau yn theatre Caerdydd yn ystod Hydref hefyd, ond oherwydd ymarferiade mi fethes fynd, gan ein bod ninne fel drama wrthi'n ddygn at Ŵyl Taf Elai, a'r côr at yr Ŵyl Gerdd Dant. Mi golles ffair y Bala am y tro cynta 'leni hefyd - ac roedd yn siomiant mawr i mi fethu gweld yr hen ffrindie a ffarmwrs yr ardal yn dod allan o'u cregyn ar yr achlysur blynyddol hwn, ond ta waeth, fedrai ddim cael y gacen a'i bwyta hi yn na fedraf. (Be 'di'r dywediad Cymraeg am hynny - "dwi'n rêl ci yn y manjer" fyswn i'n ddeud ffor 'cw).

A dyne fi ynghanol mis Tachwedd yn barod, ac mae 'na lot o bethe ar y gweill y mis yma eto - mi gewch yr hanes yn y rhifyn nesa - os bydda'i yma'n de!!

O.N. - cofiwch gyfrannu'n hael i blant mewn angen - ac os oes gennochi geiniog yn sbâr, cofiwch amdana i i dalu'r morgej!!

GWEITHDY PENNYTHNOS DUGES AMALFFI
Canolfan Chapter, Caerdydd
Tachwedd 18 a 19

# STORÏAU GWERIN CYMRU

Bu yng Nghymru draddodiad maith a chyfoethog iawn o adrodd storiau - yng ngeiriau un croniclydd cynnar iocunde et memoriter, 'gyda boddhad ac oddi ar y cof'. O ddyddiau Nennius yn y nawfed ganrif hyd ein dyddiau ni cofnodwyd y traddodiad hwn yn helaeth mewn llawysgrif, llyfr a chylchgrawn. Fy mraint innau yn ystod 1964-87 (fel rhan o'm gwaith yn Amgueddfa Werin Cymru) oedd gwneud arolwg o faes y stori werin. Buwyd yn holi dros 2500 o bersonau, a recordiwyd oddeutu 380 ohonynt ar dâp, cyfanswm o oddeutu 600 awr o recordiadau sain a 18,000 eitem o naratif.

Wedi'r cofnodi dyletswydd pob amgueddfa yw cyflwyno'i chasgliadau i'r cyhoedd yn y modd gorau posibl. Ystyr amguedd yw 'trysor', ac fel gyda phob trysor o'r fath, gwell ei rannu na'i gadw o'r golwg. Aed ati, felly, i destuno holl gynnwys y tapiau ac i'w mynegeio yn ôl siaradwr, ardal, pwnc, teip o stori, a motif. Gwneir defnydd cyson o'r adysgrifau a'r mynegeion hyn gan ymchwilwyr sy'n ymweld â'r Amgueddfa.

Un cyfrwng allweddol i gyflwyno'r casgliadau yw arddangosfeydd, ac yn yr Amgueddfa Werin o'r 21 Hydref hyd 16 Ionawr 1989 ceir arddangosfa ar y testun 'Storiau Gwerin Cymru'.



Melangell, Nawddsant yr ysgyfarnogod.
O ddarlun gan Margaret D. Jones.



Ysbaddaden Bencawr (Culhwch ac Olwen)
O ddarlun gan Margaret D. Jones

Dyma ddarparu ar gyfer pobl sy'n ymweld â'r Amgueddfa, ond ein dyletswydd hefyd yw mynd â'r 'amgueddfa' at y bobl. Rhoddir pwys, felly, ar ddarlithio, cyflwyniadau ar radio a theledu, a chyhoeddiadau. Eleni (1988) cyhoeddwyd Straeon Gwerin Cymru (Llyfrau Llafar Gwlad, 10, Gwasg Carreg Gwalch); a The Welsh Folk Narrative Tradition : Continuity and Adaptation (Amgueddfa Werin Cymru, ad-argraffiad o'r cylchgrawn Folk Life, cyf. 26). Ym mis Tachwedd/Rhagfyr cyhoeddir hefyd Chwedlau Gwerin Cymru : Welsh Folk Tales (Amgueddfa Genedlaethol Cymru), cyfrol ddwyieithog yn cyflwyno chwedlau a thraddodiadau gwerin 63 ardal yng Nghymru, ynghyd â'u cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol. Gwnaed y darluniau gan Margaret D. Jones, Capel Bangor, Dyfed. Seiliwyd hwy ar ei map dyfrliw o Gymru a gomisiynwyd gan Amgueddfa Werin Cymru ac a gyhoeddir ar ffurf poster ar y cyd â'r gyfrol. Y mae'r map nodedig hwn (ynghyd â map enwog Margaret Jones o'r Mabinogion) i'w weld yn yr arddangosfa.

ROBIN GWYNDAF

# CLWB IFOR BACH

## —— Trefn ——

RHEOLWR I GLWB CYMRAEG Y BRIFDDINAS

Mae cyn arweinydd undeb myfyrwyr, Ceri Hywel Morgan, naw ar hugain oed sy'n byw yn Y Rhath, Caerdydd, wedi cael ei benodi fel rheolwr amser llawn cyntaf i glwb Cymraeg y brifddinas - Clwn Ifor Bach. Bydd yn gyfrifol am bob agwedd o waith y clwb sy'n ganolfan i lu o wahanol gymdeithasau a thimau erbyn hyn.

Mae Ceri yn un o sylfaenwyr y clwb ac yn un o'i aelodau mwyaf gweithgar - ysgrifennydd y tîm rygbi ac yn aelod o gwmni drama'r clwb oedd yn llwyddiannus yn y cystadleuaeth Drama Un Act yn Eisteddfod Casnewydd eleni.

"Gyda thystysgrif cenedlaethol uwch mewn astudiaethau busnes a phrofiad fel trefnydd adloniant i Gymdeithas yr Iaith adeg Eisteddfod Genedlaethol Abergwaunmae'n cyplysu'r holl rinweddau sydd eisiau arnom mewn reolwr," meddai Owen John Thomas, llywydd y clwb. Ac fel mab i fferyllydd o San Clêr, mae'n ffurfio triawd gyda'r llywydd, a thrysorydd y clwb Dr John Lloyd, sydd hefyd yn feibion y fferyllfa - y moddion cywir i'r clwb o fod a digon o brofiad wrth fesur ambell ddrafft neu ddau.

Owen John Thomas
Hydref 1988
Ffôn 499868

## — ac anhrefn —

Ar ôl yr ugeinfed achos o ddifrod i ddrws blaen Clwb Ifor Bach, Clwb Cymraeg Caerdydd, mae llywydd y clwb, Mr Owen John Thomas, wedi gofyn am gyfarfod gyda phennaeth yr heddlu yng nghanol Caerdydd.

Dywedodd rheolwr y clwb, Mr Ceri Morgan, fod y difrod sydd wedi costio bron dwy fil o bunnau dros gyfnod o ddwy flynedd, yn digwydd yn oriau man y bore - ar ôl tri o'r gloch tra bo'r clwb ar gau. Fel arfer, ymosodir ar yr uned ateb drws sy'n costio bron pedwar cant o bunnau i'w hadnewyddu ond roedd y difrod diweddaraf i gloeau'r drws yn ddifrod o £200.

Ar achlysuron eraill, torrwyd ffenestri'r clwb a rhoddwyd 'super' glud yn yr uned ateb drws. "Nid fandaliaeth gyffredin yw hyn", meddai Mr Morgan; mae offer arbennig wedi cael eu defnyddio i beri'r difrod gan rywun sy'n mynd yn fwriadol i stryd gefn dywyll yng nghanol y ddinas tra bo pawb arall yn cysgu ers oriau. Mae amlder ac amgylchiadau eraill y digwyddiadau hyn y awgrymu taw rhywun â theimladau cryf yn erbyn Cymreictod sy'n gyfrifol. Mae'r Clwb yn ganolfan ddiwylliannol a chymdeithasol sy'n gwneud cyfraniad pwysig i fywyd Cymraeg.

Rydyn ni wedi dioddef y troseddau hyn am amser hir, gan hysbysu'r heddlu'n unig amdanynt, ond teimlwn erbyn hyn fod e'n bryd i'r cyhoedd gael gwybod bod yr unig glwb Cymraeg yn ein prifddinas yn dioddef y fath ymosodiadau gwarthus.

# BWRDD YR IAITH GYMRAEG

AELODAU'R PUM GWEITHGOR ARBENIGOL

Yn dilyn ail gyfarfod Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 11 Hydref cyhoeddwyd enwau aelodau'r pum gweithgor arbenigol a sefydlir o dan gadeiryddiaeth aelodau o'r Bwrdd.

"Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i aelodaeth y pum gweithgor" meddai Cadeirydd y Bwrdd, John Elfed Jones. "Roeddem am gael unigolion a fyddai'n cyfrannu o'u profiad at faes llafur arbennig pob gweithgor. Credaf i ni sicrhau hyn, ac roeddwn yn falch dros ben fod pawb wedi cytuno yn ddi-oed i ymhel a'r gwaith. Dyma asgwrn cefn y Cwrdd o safbwynt ei ymwneud a'r dasg holl bwysig o gynllunio'n greadigol, ac mae gennym sylfaen gref o arbenigoedd yn aelodaeth y gweithgorau i'n cynorthwyo yn y dasg" meddai Mr Jones.

Fel aelodau'r Bwrdd, bydd holl aelodau'r gweithgorau yn gweithredu'n gwbl ddi-dâl. Y rhai a dderbyniodd wahoddiad personol y cadeirydd yw -

Gweithgor Deddfwriaeth
dan gadieryddiaeth Mr Winston Roddick, Cwnsler y Frenhines
Mr Gwyn Griffiths - Cyfreithiwr yn Nhreffynnon, Clwyd
Mr Geraint Jones - Dirprwy Ysgrifennydd y Sir, Cyngor Sir Gwynedd
Mr John McGlynne - Adran y Gyfraith, Prifysgol Cymru, Coleg Caerdydd
Yr Athro Hywel Moseley, Cwnsler y Frenhines

Gweithgor Marchnata
o dan gadeiryddiaeth Mr Euryn Ogwen Williams
Ann Beynon - Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus S4C
Ellis Evans - Cadeirydd grŵp y Cardiff Independent
John Geraint - Uwch-gynhyrchydd, BBC Cymru
Kim Howells - Swyddog Ymchwil gydag Undeb Cenedlaethol y Glowyr yn Ne Cymru
Sion Pyrs - Sefydlydd Cwmni Cened. Cyfarwyddwr Teledwyr Annibynol Cymru
Mike Young - Cyfarwyddwr Booker McConnell CCC. Crewr Superted.

Gweithgor y Sector Breifat
o dan gadeiryddiaeth Mr Wynford Evans
Roy Cull - Rheolwr Cymru British Telecom
Alun Daniel - Awdurdod Datblygu Cymru
Gwilym Owen - Rheolwr Rhanbarth Caerdydd, Banc y Midland
Gordon Peterson - Prif Bostfeistr Abertawe
John Tree - Cadeirydd Form and Surface Grinding, Llanilltud Faerdref, Morgannwg Ganol
Bob Vickery - Rheolwr-gyfarwyddwr Epco Electronics, Caerllion

Gweithgor Llywodraeth Lleol/Sector Gyhoeddus
o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Peter Law
Cynghorydd Douglas Grey - Cadeirydd Pwyllgor Siroedd Cymru Dyfed
Cynghorydd R D Lewis - Cadeirydd Cymdeithas Cynghorau Dosbarth Cymru
Cynghorydd H Lloyd Turnbull - Cyngor Sir Gwent
Cynghorydd Mostyn Jones - Cyngor Sir Morgannwg Ganol
Cynghorydd Hedd Bleddyn Williams - Llanbryn-mair. Aelod o Gyngor Dosbarth Maldwyn
Mr D H Davies - Prif weithredwr Cyngor Sir Dyfed
Mr Tim Heald - Trysorydd Cyngor Sir Gwynedd
Mr Julian Parry - Prif Weithredwr, Cyngor Dosbarth Glyndwr
Mr Emrys Roberts - Ysgrifennydd Pwyllgor Iechyd Cymunedol De Gwent
Bydd Mr Geraint Price Thomas, Ysgrifennydd Cymdeithas Cynghorau Dosbarth Cymru a Mr Norman Jones, un o Swyddogion Parhaol Pwyllgor Siroedd Cymru yn eistedd gyda'r pwyllgor fel sylwebyddion.

Gweithgor Prosiectau Arbennig
dan gadeiryddiaeth Mr Ron Jones
Wynford James - Antur Teifi
Bethan Jones - Cwmni Theatr Dalier Sylw
Elan Closs Stephens - aelod o'r Bwrdd

Dyma gnewyllyn y weithgor ond yn dibynnu ar faterion fydd yn cael eu trafod, bydd y Cadeirydd yn gwahodd unigolion eraill i gyfrannu o'u profiad i waith y gweithgor.

Am wybodaeth pellach cysyllter â - John Walter Jones, Cyfarwyddwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg (0222) 823322

17 Hydref 1988

# LEDIS LISA



Côr Cerdd Dant Lisa Erfyl

Yn ystod wythnos Eisteddfod Fawr Casnewydd daeth nifer o gyn aelodau Côr Cerdd Dant Lisa Erfyl ynghyd er mwyn cael aduniad ar y maes. Braf oedd cael sgwrs efo hen ffrindiau o bell ac agos. Fel arfer, 'roedd Lisa wrth ei bodd gyda'r gwmniaetha hithau'n gwenu'n hawddgar yn ei ffordd dihafal ei hun. Anodd credu fod rhyw ugain mlynedd wedi mynd heibio ers dyddiau mawr y cystadlu a'r cyngherdda. Cofiwn gyda balchder am gwpan arian Telynores y Glomen Wen a chofiwn am y fraint o ganu yn y Barri a'r Bala a'r wefr o ennill yn coroni ein hymdrechion. Tybed ydy'r sgertiau brethyn porffor a'r blowsus pinc ar gael o hyd?!! Fe gofiwch mae'n siwr am ein hymddangosiad fel tusw o bys pêr ar lwyfan ac ar y sgrin deledu. Diolch i Lisa am gyfnod hyfryd o gymniaeth ac am agor ein llygaid i ryfeddodau'r byd Cerdd Dant. Melys Atgof.

# Arddangosfeydd TACHWEDD

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Y Prif Adeilad Parc Cathays
CAMPWEITHIAU O'R AMGUEDDFA GENEDLAETHOL
Rhai o ddarluniau gwychaf yr Amgueddfa gan gynnwys Richard Wilson, Cavaletto, Renoir, Monet, Cezanne, Van Gogh a Rodin.

Tŷ Turner

Heol Plymouth Penarth
PEINTIADAY CYFOES
Detholiad o gasgliad yr Amgueddfa yn cynnwys gweithiau gan Gwen John, Ceri Richards, Kyffin Williams, Josef Herman ac eraill.

Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru

Heol Bute
TEITHIO'R TONNAU
Hanes y modd y cariwyd pobol ar fordeithiau o gylch glannau Cymru. Arddangosfa barhaol yw hon yn yr hen Q-shed yn ardal y dociau.

DARLUNIO ADEILADAU TREFOL
tan 30 Tachwedd
Arddangosfa o luniau Mary Turner. Gweithiau mewn inc a dyfrlliw o adeiladau yng Nghaerdydd. Ymddiddora yr artist mewn cadwraeth, yn enwedig yn y gwaith o recordio hen adeiladau - rhai eisioes wedi diflannu.

Chapter

Heol y Farchnad Treganna
Sadwrn 5 Tachwedd
AM FOMENT
Gosodiad gan Vong Phaophanit.

Oriel

Heol Siarl Caerdydd
tan 19 Tachwedd
ARTISTIAID YNG NGHYMRU
Gweithiau gan Keith Arnett, Gillian Ayres a David Nash

Taflen

Arcêd Stryd y Dug
Canolfan Wehyddu SEION Llanderis

TRISTWCH MAWR OEDD CLYWED AM FARWOLAETH J.IDRIS EVANS TREFNYDD Y DE,EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU, A HYNNY AR DDIWRNOD EI YMDDEOLIAD. DAETH LLAWER O DDARLLENWYR Y DINESYDD I'W ADNABOD WRTH BARATOI AT EISTEDDFOD CAERDYDD 1978 AC ELENI YNG NGHASNEWYDD. CYDYMDEIMLWN YN DDWYS Â'I DEULU YM MHWLLHELI.


CAPEL SALEM
MARKET RD, CANTON

Nos Sadwrn, Rhagfyr 3ydd 1988
am 7.30

"Sêr yn Salem"
gyda
Côr RHIANNEDD RHYMNI, MYFYR ISAAC

Cyflwynydd - Caryl Parry Jones
Tocynnau £2 (50c i blant)

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 85



Ar Draws
1. Hen ffon Llŷn wedi ei holrhain i'r tarddiad (9)
6. Bad yn cael ei ysgwyd gan y lli gwyllt yn ddi-stop (5)
9. Llysiau wedi'u coginio yn berffaith (5,4,'1,5)
10. A welwch chwi'r carw bach goseiddig yn ymguddio? (4)
11. Priodi ar frys i osod seiliau'r is-abatai (8)
14. Byddai yn tynnu'r dorch cystal â Dai (9)
15. Deunydd ysgithrog a gewch gan Ifor i harddu'r allweddell (5)
16. Y mae'n hyfforddi (5)
18. Torrwyd ei dolenni ger Clwt-y-Bont yn Arfon (9)
20. Fe'u gelwir yn Ŵyr o fri yng nghyfieithiad newydd yr Apocryffa (Ecclesiasticws 44) (8)
21. "...... blodeuai Ebrill" (RWP) (4)
25. Pysgodyn blasus sydd wedi ennyn dawn Endaf Emlyn (6,4'1,4)
26. "Nid ....... niwed " (5)
27. O blith yr eilyddion, pwy o'r drin a ddaw i lenwi'r bwlch mewn taro? (9)

I Lawr
1. Ceir tair FF yn enw'r gweithdy (5)
2. Mae yn ei anian i fod yn reit gas (7)
3. Mae pawb sy'n fyw heddiw yn gwneud hyn ar y cyd â mi (4)
4. Bu'r ymherodr allan mewn tipyn o oerni (4)
5. Gwneud ffordd trwy roddi bwyelli ar waith (10)
6. Meddygon yn gwneud toriad di-lun wrth docio yn ddiddiwedd (10)
7. Ymafael cas ymhlith y bordwyr (7)
12. Diwrnod i'r saint i gyd (5,5)
13. Clod Dwyfor yn cyd-wau â'r mawl a ganwyd (10)
14. Profi'r un cyffyrddiad? (3-6)
17. Prifathro gwyn yn stelcian (7)
19. Dyro bla ar weithfa gwyddion! (7)
22. "Safed y bardd ar alwad......Gwlad!" (1,4)
23. Rhai go frith wedi'u hyfforddi yn R A D A? (4)
24. Cliw digon syml, siwr iawn (4)

Datrysiad Croesair rhif 84

Ar draws 1. Dyletswyddau; 10. Oedid; 11. Argyhoedda; 12. Amgylchiad; 13. Posib; 14. Papuro; 16. Ymosodwch; 18. Gwrthgloch; 20. Mynnai; 23. Nertha; 24. Gwrthbrofa; 26. Amgaeedig; 27. Echdoe; 28. Gorymdeithio.

I Lawr 2. Yn Deg; 3. Eidalwr; 4. Swatio; 5. Ymgodymu; 6. Anhapus; 7. Gorau Po Gyntaf; 8. Fel Sidan; 9. Haf Bach Mihangel; 15. Perarogl; 17. Llosgadwy; 19. Gwaredo; 21. Ymboeni; 22. Frwgwd; 25. Oedai.

Cystadleuaeth Rhif 84

Derbyniwyd naw ymgais, a phob un ohonynt yn gywir. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd Marged Davies, 5 Rookwood Avenue, Llandâf, ac iddi hi yr aiff y tocyn llyfr y mis hwn. Y rhai cywir, ond aflwyddiannus oedd: A R R, Abertawe; John G Breese, Canton; J Lloyd, Ger-y-Llyn; B H, Cyncoed; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd; B T Cyncoed; Robin D N Bateman, Yr Eglwysnewydd a Hefin Wyn Thomas, Y Rhath.

Cystadleuaeth Rhif 85

Tocyn llyfr gwerth £5 ym mis Tachwedd eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn Tachwedd 24ain, os gwelwch yn dda.

# SAM TÂN

SAM TÂN YN GWERTHU FEL SLECS!

Byddwch yn ofalus â thân! Dyna neges Sam Tân a'i gyfeillion i blant Cymru mewn cyfres o bedwar llyfr deniadol a lliwgar sy'n dilannu'n sydyn o'n siopau llyfrau.
Cyhoeddwyd y llyfrau gan Gwmni Hughes, ac addaswyd y storiau gan Nia Ceidiog, sydd wrth ei bodd gyda'r ymateb. Mor dda yw'r gwerthiant dywedodd llefarydd ar ran Hughes bod posibilrwydd cryf y bydd y llyfrau yn cael eu hailargraffu er mwyn sicrhau y bydd rhai ar gael ar y farchnad Nadolig.




CYMDEITHAS WYDDONOL CYLCH CAERDYDD

Un o brif amcanion y gymdeithas yw hyrwyddo gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. I'r diben yma cynhaliwn gyfres o ddarlithoedd misol. Ein gobaith yw bod yna ddarlith at ddant pawb yn ystod y gyfres gyda nifer o'r darlithoedd o ddiddordeb cyffredinol.

Mae gweithgareddau'r tymor eisioes wedi cychwyn gyda darlith gan Dr Iolo ap Gwynn (Aberystwyth). Yn ystod y noson hon cawsom giplowg ar gymlethdod y gell - uned sylfaenol bywyd. Bydd ein cyfarfod nesaf nos Lun, Tachwedd 7ed, pryd y disgwyliwn Dr Phil Williams (adran Ffiseg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth) i sôn am "Ffiniau'r Gofod". Yna, dechrau Rhagfyr (nos Lun y 5ed) edrychwn ymlaen at groesawu Swyddog Materion Cyhoeddus Curiad Calon Cymru - Ms Iona Wyn Williams - i sôn am waith y mudiad. Dylsai'r noson hon yn sicr fod o ddiddordeb i bob yr un ohonom.

Cynhelir pob un o'r cyfarfodydd yng Nghlwb Ifor Bach am 8 o'r gloch ac mae croeso i unrhyw un o ddarllenwyr y DINESYDD i ymuno yn y darlithoedd yma. Ceir manylion am gyfarfodydd y dyfodol yng nghalendr y Dinesydd ond os oes rhywun am fanylion pellach ynglŷn a'r gymdeithas a'r chyfarfodydd yna gellir cysylltu â Beth Jones ar Caerdydd 755944 est 2002 (dydd).

# Y Cylch Sialc



Y mae Jonathan Shapey yn feistr corn ar ddweud ei adnod yn y capel. Onid y capel, y set fawr a'r pwlpud fu'n feithrinfa i lawer o actorion Cymru? Yn ddiweddar cafodd Jonathan mab hynaf Keith a Delyth Shapey gyfle i drosglwyddo'i ddawn o'r capel i'r theatr. Dewisiwyd Jonathan o bawb a ymgeisiodd am ran i fachgen bach yng nghynhyrchiad Cwmni Theatr Gwynedd o ddrama Bertolt Brecht- Y Cylch Sialc.

Llongyfarchiadau i Jonathan ar ei lwyddiant.Tybed beth fydd ei ddewis lwybr yn y dyfodol? Gall honni beth bynnag, fod ganddo brofiad theatrig. Dyma fo yng nghwmni ei gyd actorion.


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**


FIMBRA

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**



**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**

## DINAS POWIS A PHENARTH

Nos Sul Rhagfyr 4
Dewch i ganu carolau yng Nghapel Bethel, Penarth. Cewch goffi a mins peis a digon o groeso.

Nos Lun Rhagfyr 19
Noson Garolau - Croeso i chi gyd. Beth am ddod draw i Ddinas Powis i Eglwys Sant Pedr i ymuno â'r Gymdeithas Gymraeg mewn mawl a chân. Cewch luniaeth ar ôl rhag ofn i chi lwgu ar y siwrne fawr o Gaerdydd. Beth am ddod??

---

Fis diwetha' teithiodd Côr Meibion De Cymru o dan arweiniad Alun John i dre Den Bosch yn yr Iseldiroedd i gymryd rhan mewn wythnos Gymraeg. Cynhaliwyd yr wythnos i goffau y diwrnod y rhyddhawyd y dre o gaethiwed yn Hydref 1944 gan gatrawd o Gymru - y 53ain Adran. Yn y dre y mae coffad parhaol i'r achlysur, sef Ystafell Gymreig yn Neuadd y Ddinas, honno'n llawn o luniau, mapiau ac adroddiadau o'r Wasg yn cofnodi'r chwe niwrnod o frwydyr a fu yn Den Bosch. Yn yr Iseldiroedd y mae Rachel Ann Morgan yn byw, merch Mr a Mrs Handel Morgan, Cyncoed yn byw. Priodol iawn felly oedd, mai hi oedd yr unawdydd yn y cyngherddau yn ystod yr wythnos. Rhoddodd hefyd noson o gerddoriaeth ar ei phen ei hun yn ystod yr wythnos, gan gyfuno'i llais â'r delyn. Ymwelodd Tywysog Cymru â'r dathliadau yn rhinwedd ei swydd â'i gysylltiad â Chatrawd Brenhinol Cymru, gan osod torch ar gofgolofn i goffau y rhai o Gymru a gollodd eu bywydau yno. Codwyd y gofgolofn yn 1952. Y mae yna felly gysylltiad clos yn parhau rhwng trigolion Den Bosch a nifer o deuluoedd Cymreig, ac fe deithiodd llawer yno i rannu yn nathliadau'r "Cofio" yn Den Bosch.

---

Da deall bod Bernard Evans yn gwella ar ôl cyfnod o anhwylder. I fyny bo'r nôd Bernard.

---


**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD**

AM FANYLION CYSYLLTER A:
Tony Couch,
8 Crystal Glen,
Y Mynydd Bychan,
Caerdydd. CF4 5QH
FFON:CAERDYDD 753685
neu 615821 est. 344



Dymuna'r DINESYDD gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a dderbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.


---

TACHWEDD 24 5.30 o'r gloch

Darlith Goffa G.J. Williams 1988
'Cestyll yn yr Awyr':
Iolo Morganwg fel Saer Maen
Darlithydd: DR. PRYS MORGAN

Darlithfa 2.1
Adeilad y Dyniaethau
Colum Drive, Caerdydd.

## PYTIAU

Llongyfarchiadau i Siwan ac Emyr Wyn ar enedigaeth eu mab, gor-ŵyr yr awdur a'r cenedlaetholwr, Saunders Lewis.

---

Croeso hefyd i Megan, merch Elin a John Hefin a aned ar Hydref 20fed - wyres i Gwenda ac Ifan R Williams, Romilly Road West, Treganna.

---

Tristwch clywed am farwolaeth John Jenkins, un o aelodau ffyddlonaf Capel Salem, Canton. Hanai o Flaenplwyf ger Aberystwyth ond bu'n byw am rai blynyddoedd yn Llundain lle roedd yn swyddog gyda'r Heddlu yn Scotland Yard. Daeth yn ei ôl i Gaerdydd i fyw yn Llantrisant Road. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i weddw, Lilian yn ei phrofedigaeth.

---

Y mae Elin Angharad Edwards wedi mentro i weithio ar ei liwt ei hun ar ôl bod yn aelod o Gerddorfa Symffoni Gymreig y BBC am saith mlynedd. Golyga'r newid hwn gryn deithio iddi o gwmpas Prydain. Y mae ganddi ystafell yn Llundain ac eisioes y mae wedi gweithio efo cerddorfa Covent Garden, a Sadlers Wells. Pan na fydd yn Llundain bydd yn ymgratrefu efo'i mham yng Nghaerdydd ac yn gobeithio dal i weithio cyn gymaint ag y gall yng Nghymru. Dymunwn yn dda iddi ar y groesffordd hon yn ei bywyd.

---

Croeso cynnes i Gaerdydd i'w cartref newydd yn Heol y Gadeiriol, i'r Parchedig a Mrs Dewi Eurig Davies. Cyn ei ymddeoliad yr oedd Mr Davies yn Brifathro Coleg Diwinyddol Aberystwyth, a Mrs Emily Davies yn ddarlithydd yn Adran Ddrama, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth.:

---

Braf oedd gweld y Parchedig a Mrs Emlyn Jenkins yn ôl yng Nghaerdydd yn ystod mis Hydref. Roedd Mr Jenkins yn Bregethu (yn well nag erioed) yng nghapel Minny St. ac roedd ef a Mrs Jenkins yn edrych yn dda iawn ac yn mwynhau eu hymweliad â'r Brifddinas. Deallwn fod y ddau yn dal i fod yn ddarllenwyr cyson o'r 'Dinesydd' ac estynwn ein dymuniadau da iddynt yn eu cartref yn Aberteifi.


Gwersi piano a theori cerddoriaeth

Gwersi drwy gyfrwng y Gymraeg gan athrawes raddedig a thrwyddedig.

Arholiadau ymarferol a theori hyd safon diploma.

Am fwy o fanylion ffoniwch.
(0222) 231929



Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816